



---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

---

WELSH  
STATUTORY INSTRUMENTS

---

**2008 Rhif 1811 (Cy.175)**

**2008 No. 1811 (W.175)**

**PYSGODFEYDD MÔR,  
CYMRU**

**SEA FISHERIES,  
WALES**

**CADWRAETH PYSGOD MÔR**

**CONSERVATION OF SEA FISH**

**Gorchymyn Rhwydi Pysgota  
Perdys (Cymru) 2008**

**The Shrimp Fishing Nets (Wales)  
Order 2008**

**NODYN ESBONIADOL**

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

*(This note is not part of the Order)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn rheoli cario a defnyddio unrhyw rwydi pysgota gyda maint eu rhwyll rhwng 16 a 31 o filimetrau, wedi ei mesur yn unol â Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 129/2003 dyddiedig 24 Ionawr 2003 sy'n gosod rheolau manwl ar gyfer pennu maint y rhwyll a thrwch cortynnau rhwydi pysgota. Mae'r Gorchymyn hwn yn nodi'r darpariaethau cenedlaethol y gelwir amdanynt gan Erthygl 25 o Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 850/98 dyddiedig 30 Mawrth 1998, drwy bennu rhwydi gorchudd a gridiau didoli fel y mathau o ddyfais y mae'n ofynnol eu defnyddio.

This Order regulates the carriage and use of any fishing nets with mesh size between 16 and 31 millimetres, measured in accordance with Commission Regulation (EC) No. 129/2003 of 24 January 2003 laying down detailed rules for determining the mesh size and thickness of twine of fishing nets. This Order sets out the national provisions called for by Article 25 of Council Regulation (EC) No. 850/98 of 30 March 1998, by specifying veil nets and sorting grids as the types of device required to be used.

Mae'r Gorchymyn yn gymwys i gychod pysgota Prydeinig yng Nghymru ac mae'n eu gwahardd rhag cario na defnyddio rhwydi o'r fath ac eithrio o dan amgylchiadau penodol (erthygl 3).

The Order applies to British fishing boats in Wales and prohibits them from carrying or using such nets other than in certain specified circumstances (article 3).

Yr eithriadau penodol yw pan fydd atodiadau a ddiffinnir wedi eu gosod ar y rhwyd (erthygl 3(1)(a) a (b)), pan na fydd unrhyw bysgod môr wedi eu dal (erthygl 3(1)(c)) neu pan fydd unrhyw bysgod môr a gedwir ar y cwch yn cael eu cadw yn unol ag Erthygl 25(3) o Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 850/98 (erthygl 3(1)(d)).

The specified exceptions are where defined attachments are fitted to the net (article 3(1)(a) and (b)), where no sea fish have been caught (article 3(1)(c)) or where any sea fish retained on board are retained in accordance with Article 25(3) of Council Regulation (EC) No. 850/98 (article 3(1)(d)).

Os bydd unrhyw gwch yn torri'r gwaharddiad hwn, bydd y meist'r, y perchennog a'r siartrwr yn euog o dramgwydd ac yn agored i ddirwy nad yw'n uwch na £5,000 ar gollfarn ddiannod ac ar gollfarn ar ddiad i ddirwy (adrannau 3(5) ac 11(1)(b) o Ddeddf Pysgod Môr (Cadwraeth) 1967). Caiff y llys hefyd osod dirwy ychwanegol heb fod uwchlaw gwerth y pysgod a

If any boat breaches this prohibition, the master, owner and charterer is guilty of an offence and is liable to a fine not exceeding £5,000 on summary conviction and on conviction on indictment to a fine (sections 3(5) and 11(1)(b) of the Sea Fish (Conservation) Act 1967). The court may also impose an additional fine not exceeding the value of the fish caught with the net or

ddaliwyd â'r rhwyd neu orchymyn fforffedu'r rhwyd (adran 11(2) a (3) o Ddeddf 1967).

Mae'r Gorchymyn yn ychwanegol yn rhoi pwerau gorfodi i swyddogion pysgodfeydd môr Prydeinig at ddibenion gorfodi'r Gorchymyn hwn neu unrhyw Orchymyn cyfatebol (erthygl 4).

Mae'r Gorchymyn yn dirymu Gorchymyn Rhwydi Pysgota Perdys (Cymru) 2003 (erthygl 5).

Ni pharatowyd asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn.

order the net's forfeiture (section 11(2) and (3) of the 1967 Act).

Additionally the Order confers powers of enforcement on British sea-fishery officers for the purposes of enforcing this Order or any equivalent Order (article 4).

The Order revokes the Shrimp Fishing Nets (Wales) Order 2003 (article 5).

No regulatory impact assessment has been prepared in relation to this Order.

**2008 Rhif 1811 (Cy.175)**

**2008 No. 1811 (W.175)**

**PYSGODFEYDD MÔR,  
CYMRU**

**SEA FISHERIES,  
WALES**

**CADWRAETH PYSGOD MÔR**

**CONSERVATION OF SEA FISH**

**Gorchymyn Rhwydi Pysgota  
Perdys (Cymru) 2008**

**The Shrimp Fishing Nets (Wales)  
Order 2008**

*Gwnaed* 8 Gorffennaf 2008  
*Gosodwyd gerbron Cynulliad  
Cenedlaethol Cymru* 9 Gorffennaf 2008  
*Yn dod i rym* 30 Gorffennaf 2008

*Made* 8 July 2008  
*Laid before the National  
Assembly for Wales* 9 July 2008  
*Coming into force* 30 July 2008

Mae Gweinidogion Cymru wedi'u dynodi(1) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(2), fel y'i darllenir gyda pharagraff 1A o Atodlen 2 i'r Ddeddf honno(3), o ran polisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd.

The Welsh Ministers are designated(1) for the purposes of section 2(2) of the European Communities Act 1972(2), as read with paragraph 1A of Schedule 2 to that Act(3), in relation to the common agricultural policy of the European Community.

Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu at ddiben a grybwyllir yn adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ac mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru ei bod yn hwylus dehongli'r cyfeiriadau at offerynnau'r Gymuned Ewropeaidd yn y Gorchymyn hwn fel cyfeiriad at yr offerynnau hynny fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd.

This Order makes provision for a purpose mentioned in section 2(2) of the European Communities Act 1972 and it appears to the Welsh Ministers that it is expedient for the references to European Community instruments in this Order to be construed as references to those instruments as amended from time to time.

---

(1) O.S. 2005/2766 (fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2006/3329). Yn rhinwedd adrannau 59(1) a 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraffau 28 a 30 o Atodlen 11 iddi, mae swyddogaethau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (fel y'i cyfansoddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (p.38)) yn arferadwy gan Weinidogion Cymru.

(2) 1972 p.68.

(3) Mewnosodwyd paragraff 1A gan adran 28 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoliadol 2006 (p.51).

---

(1) S.I. 2005/2766 (as amended by S.I. 2006/3329). By virtue of sections 59(1) and 162 of and paragraphs 28 and 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006, functions conferred on the National Assembly for Wales (as constituted under the Government of Wales Act 1998 (c.38)) are exercisable by the Welsh Ministers.

(2) 1972 c.68.

(3) Paragraph 1A was inserted by section 28 of the Legislative and Regulatory Reform Act 2006 (c.51).

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 3(1) a 15(3) o Ddeddf Pysgod Môr (Cadwraeth) 1967(1), a thrwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 a pharagraff 1A o Atodlen 2 iddi, yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

## Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Rhwydi Pysgota Perdys (Cymru) 2008 a daw i rym ar 30 Gorffennaf 2008.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

## Dehongli

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cwch pysgota Prydeinig" ("*British fishing boat*") yw cwch pysgota sydd naill ai wedi'i gofrestru yn y Deyrnas Unedig o dan Ran II o Ddeddf Llongau Masnachol 1995(2) neu sydd dan berchnogaeth lwyr personau sy'n gymwys i berchnogi llongau Prydeinig at ddibenion y rhan honno o'r Ddeddf honno;

mae i "Cymru" yr ystyr a roddir i "*Wales*" yn adran 158(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(3).

ystyr "Gorchymyn cyfatebol" ("*equivalent Order*") yw gorchymyn sy'n rhychwantu unrhyw ran arall o'r Deyrnas Unedig a wneir o dan adran 3 o Ddeddf Pysgod Môr (Cadwraeth) 1967 sy'n cynnwys darpariaeth debyg i'r ddarpariaeth yn erthygl 3; ac

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by sections 3(1) and 15(3) of the Sea Fish (Conservation) Act 1967(1), and in exercise of the powers conferred by section 2(2) of, and paragraph 1A of Schedule 2 to, the European Communities Act 1972, make the following Order:

## Title, commencement and application

1.—(1) The title of this Order is the Shrimp Fishing Nets (Wales) Order 2008 and comes into force on 30 July 2008.

(2) This Order applies in relation to Wales.

## Interpretation

2.—(1) In this Order:

"British fishing boat" ("*British fishing boat*") means a fishing boat which is either registered in the United Kingdom under Part II of the Merchant Shipping Act 1995(2) or is owned wholly by persons qualified to own British ships for the purposes of that part of that Act;

"codend" ("*pen y cwd*") means the rearmost part of a net, being made up of one or more panels comprising pieces of netting of the same mesh size attached to one another along their sides in the long axis of the net by a lacing;

"equivalent Order" ("*Gorchymyn cyfatebol*") means an order extending to any other part of the United Kingdom made under section 3 of the Sea Fish (Conservation) Act 1967 containing a similar provision to that in article 3; and

---

(1) 1967 p.84. Diwygiwyd Adran 3 gan Ddeddf Terfynau Pysgodfeydd 1976 (p.86), adran 9(1) ac Atodlen 2, paragraff 16(1); Deddf Pysgota'r Glannau (Yr Alban) 1984 (p.26), adran 10 (1) ac Atodlen 1 ac O.S. 1999/1820, erthygl 4 ac Atodlen 2, Rhan 1, paragraff 43(1), (2) a (4). Amnewidiwyd adran 15(3) gan Ddeddf Pysgodfeydd Môr 1968 (p.77), adran 22(1), Atodlen 1, paragraff 38(3) ac fe'i diwygiwyd gan Ddeddf Terfynau Pysgodfeydd 1976 (p.86) adran 9(1), Atodlen 2, paragraff 16(1) ac O.S. 1999/1820, erthygl 4, Atodlen 2, paragraff 43(1) a (2)(b). *Gweler* adran 22(2)(a) i gael y diffiniadau o "*the Ministers*" at ddibenion adrannau 3 a 15(3); diwygiwyd adran 22(2) gan Ddeddf Pysgodfeydd 1981, adrannau 19(2)(d), a 45(b) ac (c) a chan O.S. 1999/1820, erthygl 4, paragraff 43(12) o Atodlen 2. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Gweinidogion yn adrannau 3(1) a 15(3) o Ddeddf 1967, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (fel y'i cyfansoddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998) gan erthygl 2 ac Atodlen 1 i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny wedyn i Weinidogion Cymru gan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.38) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(2) 1995 p.21.

(3) 2006 p.32. Mae'r diffiniad hwn yn cynnwys "*the sea adjacent to Wales out as far as the seaward boundary of the territorial sea*".

---

(1) 1967 c.84. Section 3 was amended by the Fishery Limits Act 1976 (c.86), section 9(1) and Schedule 2, paragraph 16(1); the Inshore Fishing (Scotland) Act 1984 (c.26), section 10(1) and Schedule 1 and S.I. 1999/1820, article 4, Schedule 2, Part I, paragraph 43(1), (2) and (4). Section 15(3) was substituted by the Sea Fisheries Act 1968 (c.77) section 22(1), Schedule 1, paragraph 38(3) and amended by the Fishery Limits Act 1976 (c.86) section 9(1), Schedule 2, paragraph 16(1) and S.I. 1999/1820, article 4, Schedule 2, paragraph 43(1) and (2)(b). *See* section 22(2)(a) for definitions of "the Ministers" for the purposes of sections 3 and 15(3); section 22(2) was amended by the Fisheries Act 1981, sections 19(2)(d) and 45(b) and (c) and by S.I. 1999/1820, article 4, paragraph 43(12) of Schedule 2. The functions of the Ministers in sections 3(1) and 15(3) of the 1967 Act, so far as they are exercisable in relation to Wales, were transferred to the National Assembly for Wales (as constituted under the Government of Wales Act 1998) by article 2 of and Schedule 1 to the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672). Those functions were subsequently transferred to the Welsh Ministers by section 162 of and paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c.38).

(2) 1995 c.21.

ystyr "pen y cwd" ("*codend*") yw'r rhan olaf un o rwyd, sydd wedi ei llunio o un neu fwy o baneli sy'n cynnwys rhannau o rwyd â'i rhwyllau o'r un maint ac wedi'u cysylltu â'i gilydd ar hyd eu hymylon yn echel hir plyg y rhwyd gan gareiau.

(2) At ddibenion y Gorchymyn hwn, mae rhwyll rhwyd neu rwydwe i'w mesur yn unol â Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 129/2003 dyddiedig 24 Ionawr 2003 sy'n gosod rheolau manwl ar gyfer penderfynu ar faint rhwyllau a thwrch cortynnau rhwydi pysgota(1).

(3) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at offeryn Cymunedol yn gyfeiriad at yr offeryn hwnnw fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd.

### **Gwahardd pysgota perdys heb dreillrwyd wahanu neu grid didoli**

3.—(1) Gwaherddir cychod pysgota Prydeinig rhag cario na defnyddio rhwyd, sydd â'i rhwyll yn mesur rhwng 16 a 31 o filimetrau oni bai—

- (a) bod rhwydwe, sydd â'i rhwyll yn mesur o leiaf ddwywaith mesur pen y cwd a dim mwy na 70 o filimetrau, wedi ei rhoi ar draws holl drawsdoriaid y rhwyd yn y fath fodd—
  - (i) na all pysgod gyrraedd pen y cwd heb yn gyntaf fynd drwy'r rhwydwe; a
  - (ii) bod twll yn y rhwyd y mae'r holl bysgod nad ydynt yn mynd drwy'r rhwydwe yn gallu ffoi drwyddo;
- (b) bod grid anhyblyg, nad yw'r gofod rhwng ei fariâu yn fwy na 20 o filimetrau wedi ei roi ar draws holl drawsdoriaid y rhwyd yn y fath fodd—
  - (i) na all pysgod gyrraedd pen y cwd heb yn gyntaf fynd drwy'r grid; a
  - (ii) bod twll yn y rhwyd y mae'r holl bysgod nad ydynt ym mynd drwy'r grid yn gallu ffoi drwyddo;
- (c) na chadwyd unrhyw bysgod ar y cwch; neu

"Wales" ("*Cymru*") has the meaning given to it in section 158(1) of the Government of Wales Act 2006(1).

(2) For the purpose of this Order, the mesh of a net or netting is to be measured in accordance with Commission Regulation (EC) No. 129/2003 of 24 January 2003 laying down detailed rules for determining the mesh size and thickness of twine of fishing nets(2).

(3) Any reference in this Order to a Community instrument is a reference to that instrument as amended from time to time.

### **Prohibition on fishing for shrimps without a separator trawl or sorting grid**

3.—(1) British fishing boats are prohibited from carrying or deploying a net, the mesh of which measures between 16 and 31 millimetres unless —

- (a) netting, the mesh of which measures at least twice that of the codend and no more than 70 millimetres, is fitted across the entire cross-section of the net in such a way that —
  - (i) fish cannot reach the codend without first passing through the netting; and
  - (ii) there is a hole in the net through which all fish that do not pass through the netting are able to escape;
- (b) a rigid grid, the spacing between the bars of which is no more than 20 millimetres, is fitted across the entire cross-section of the net in such a way that —
  - (i) fish cannot reach the codend without first passing through the grid; and
  - (ii) there is a hole in the net through which all fish that do not pass through the grid are able to escape;
- (c) no fish have been retained on board the boat; or

---

(1) OJ Rhif L22, 25.1.2003, t.5.

---

(1) 2006 c.32. This definition includes "the sea adjacent to Wales out as far as the seaward boundary of the territorial sea".

(2) OJ No. L22, 25.1.2003, p.5.

(ch) bod cadw unrhyw bysgod ar y cwch yn gydnaws ag Erthygl 25(3) o Reoliad y Cyngor 850/98 dyddiedig 30 Mawrth 1998 ar gyfer cadwraeth adnoddau pysgodwrol drwy fesurau technegol i ddiogelu rhai ifanc ac organebau morol(1).

#### **Pwerau swyddogion pysgodfeydd môr Prydeinig**

4.—(1) At ddibenion gorfodi'r Gorchymyn hwn neu unrhyw Orchymyn cyfatebol, caiff swyddog pysgodfeydd môr Prydeinig arfer y pwerau a roddir gan yr erthygl hon mewn perthynas ag unrhyw gwch pysgota Prydeinig y mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys iddo.

(2) Caiff y swyddog fynd ar y cwch, gyda neu heb bersonau a neilltuwyd i gynorthwyo'r swyddog hwnnw wrth ei ddyletswyddau ac, at y diben hwnnw, caiff fynnu bod y cwch yn stopio a chaiff wneud unrhyw beth arall a fydd yn hwyluso mynd ar y cwch neu ddod oddi arno.

(3) Caiff y swyddog fynnu bod y meistr a phersonau eraill ar y cwch yn bresennol a chaiff wneud unrhyw archwiliad ac ymholiad sy'n ymddangos i'r swyddog ei fod yn angenrheidiol at y diben o orfodi'r Gorchymyn hwn ac, yn benodol —

- (a) caiff archwilio unrhyw bysgod ar y cwch hwnnw a chyfarpar y cwch, gan gynnwys yr offer pysgota, a chaiff fynnu bod personau sydd ar y cwch yn gwneud unrhyw beth sy'n ymddangos i'r swyddog yn angenrheidiol ar gyfer hwyluso'r archwiliad; a
- (b) caiff fynnu bod unrhyw berson sydd ar y cwch yn dangos unrhyw ddogfen ynglŷn â'r cwch, ag unrhyw weithrediadau pysgota neu unrhyw weithrediadau ategol iddynt neu â'r personau sydd ar y cwch sydd yng ngwarchodaeth neu feddiant y person hwnnw a chaiff gymryd copïau o unrhyw ddogfen o'r fath;
- (c) er mwyn canfod a yw meistr, perchennog neu siartrwr y cwch wedi cyflawni unrhyw dramgwydd o dan adran 3(5) o Ddeddf Pysgod Môr (Cadwraeth) 1967 fel y'i darllenir ynghyd â'r Gorchymyn hwn neu unrhyw Orchymyn cyfatebol, caiff chwilio'r cwch am unrhyw ddogfen o'r fath a gall fynnu bod unrhyw berson ar y cwch yn gwneud unrhyw beth sy'n ymddangos i'r swyddog yn angenrheidiol i hwyluso'r chwilio;
- (ch) os yw'r cwch yn un y mae gan y swyddog reswm dros amau fod tramgwydd o'r fath wedi'i gyflawni mewn perthynas â hi, caiff ymafael yn unrhyw ddogfen a chadw'n gaeth unrhyw ddogfen o'r fath a ddangosir iddo neu y deuir o hyd iddi ar y cwch er mwyn galluogi defnyddio'r ddogfen fel tystiolaeth mewn unrhyw achos ynglŷn â'r tramgwydd;

(d) the retention of fish on board the boat is consistent with Article 25(3) of Council Regulation 850/98 of 30 March 1998 for the conservation of fishery resources through technical measures for the protection of juveniles or marine organisms(1).

#### **Powers of British Sea-fishery officers**

4.—(1) For the purposes of enforcing this Order or any equivalent Order, a British sea fishery officer may exercise the powers conferred by this article in relation to any British fishing boat to which this Order applies.

(2) The officer may go on board the boat, with or without persons assigned to assist in the officer's duties, and for that purpose may require the boat to stop and do anything else which will facilitate the boarding of the boat.

(3) The officer may require the attendance of the master and other persons on board the boat and may make any examination and inquiry which appears to the officer to be necessary for the purpose of enforcing this Order, and, in particular —

- (a) may examine any fish on that boat and the equipment of the boat, including the fishing gear, and require persons on board the boat to do anything which appears to the officer to be necessary for facilitating the examination; and
- (b) may require any person on board the boat to produce any document relating to the boat, to its fishing operations or other operations ancillary thereto or to the persons on board which is in that person's custody or possession and may take copies of any such document;
- (c) for the purpose of ascertaining whether the master, owner or charterer of the boat has committed an offence under section 3(5) of the Sea Fish (Conservation) Act 1967 as read with this Order or any equivalent Order, may search the boat for any such document and may require any person on board the boat to do anything which appears to the officer to be necessary for facilitating the search;
- (d) where the boat is one in relation to which the officer has reason to suspect that such an offence has been committed, may seize and detain any such document produced to the officer or found on board for the purpose of enabling the document to be used as evidence in proceedings for the offence;

(1) OJ Rhif L125, 27.4.1998, t.1.

(1) OJ No. L125, 27.4.1998, p.1.



ond nid oes dim yn is-baragraff (ch) uchod yn caniatáu ymafael yn unrhyw ddogfen a chadw'n gaeth unrhyw ddogfen y mae'r gyfraith yn mynnu ei bod yn cael ei chario ar y cwch ac eithrio tra bo'r cwch yn cael ei gadw'n gaeth mewn porthladd.

(4) Pan fo'n ymddangos i swyddog pysgodfeydd môr Prydeinig fod unrhyw ddarpariaeth yn y Gorchymyn hwn wedi'i thorri ar unrhyw adeg, caiff y swyddog —

- (a) ei gwneud yn ofynnol bod meistr y cwch y cyflawnwyd y tramgwydd mewn cysylltiad ag ef, neu bod y swyddog ei hun, yn mynd â'r cwch a'r criw i'r porthladd cyfleus agosaf yn ei dyb ef; a
- (b) cadw'r cwch yn gaeth y porthladd, neu ei gwneud yn ofynnol i'r meistr wneud hynny;

a phan fydd swyddog o'r fath yn cadw cwch yn gaeth, neu'n mynnu bod y cwch yn cael ei gadw'n gaeth, rhaid iddo gyflwyno i'r meistr hysbysiad ysgrifenedig yn datgan y bydd y cwch yn cael ei gadw'n gaeth, neu ei bod yn ofynnol ei gadw'n gaeth, hyd oni thynnir yr hysbysiad yn ôl drwy gyflwyno i'r meistr hysbysiad ysgrifenedig arall a lofnodir gan swyddog pysgodfeydd môr Prydeinig.

### **Dirymu**

5. Mae Gorchymyn Rhwydi Pysgota Perdys (Cymru) 2003 (1) wedi ei ddirymu.

but nothing in sub-paragraph (d) above permits any document required by law to be carried on board the boat to be seized and detained except while the boat is detained in a port.

(4) Where it appears to a British sea-fishery officer that a contravention of any provision of this Order has at any time taken place, the officer may —

- (a) require the master of the boat in relation to which the contravention took place to take, or the officer may take, the boat and its crew to the port which appears to the officer to be the nearest convenient port; and
- (b) detain or require the master to detain the boat in the port;

and where such an officer detains or requires the detention of a boat, the officer must serve on the master a notice in writing stating that the boat will be or is required to be detained until the notice is withdrawn by the service on the master of a further notice in writing signed by a British sea-fishery officer.

### **Revocation**

5. The Shrimp Fishing Nets (Wales) Order 2003(1) is revoked.

*Elin Jones*

Y Gweinidog dros Faterion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

8 Gorffennaf 2008

Minister for Rural Affairs, one of the Welsh Ministers

8 July 2008

---

(1) O.S. 2003/3035 (Cy.283).

---

(1) S.I. 2003/3035 (W.283).

---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

**2008 Rhif 1811 (Cy.175)**

**PYSGODFEYDD MÔR,  
CYMRU**

**CADWRAETH PYSGOD MÔR**

Gorchymyn Rhwydi Pysgota  
Perdys (Cymru) 2008

---

WELSH  
STATUTORY INSTRUMENTS

---

**2008 No. 1811 (W.175)**

**SEA FISHERIES,  
WALES**

**CONSERVATION OF SEA FISH**

The Shrimp Fishing Nets (Wales)  
Order 2008

©© Hawlfraint y Goron 2008

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2008

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

**£3.00**

W347/07/08

ON